# Grŵp Cynefin

## Adroddiad Blynyddol Grŵp Cynefin 2023-2024
























# Croeso Prif Weithredwr

**Croeso i Adroddiad Blynyddol 2023-24.**

Yma fe welwch adroddiadau a ffigyrau yn adlewyrchu ein perfformiad ar draws y grŵp yn ystod y flwyddyn ariannol a fu.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod o adolygu ac o fuddsoddi. Roedd yn gyfnod lle buom yn gweithredu yn ôl ein ymrwymiad gwirfoddol i Lywodraeth Cymru er mwyn adfer ein statws rheoleiddiol. Ac yn yr ystyr honno, fu hi ddim yn flwyddyn arferol i ni fel grŵp.

Gwnaethom ymrwymo i fuddsoddi yn ein staff, ein tîm, ein eiddo a'n diwylliant a gallu dangos yn glir ein bod yn cydymffurfio â'r holl reolau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, a thu hwnt.

Ac mae llawer i'w ddathlu. Bu'n flwyddyn lle gwelom y gorau o bobol – ymroddiad aelodau staff i'w gwaith, ewyllys i gyd-weithio rhwng adrannau â'i gilydd a phartneriaid allanol, brwdfrydedd tenantiaid i gymryd rhan ac ymuno ar y daith, a chefnogaeth ac ewyllys da o amrywiol lefydd, o fewn y maes tai a thu hwnt.

Mae'r llwybr bellach wedi gwastadau, ein statws cydymffurfio wedi ei adfer a chyffro a phositifrwydd am y dyfodol.

Trwy gydol y llynedd, gwnaethpwyd gwaith gwych ar draws y grŵp. Mae tenantiaid a chwsmeriaid yn fwy canolog i'n gwaith nag erioed. Mae tenantiaid wedi bod yn cymryd rhan yn ein prosesau recriwtio ers rhai blynyddoedd ond bellach maen nhw yn rhan annatod o bob proses, yn eistedd ar bob cyfweliad ac yn cymryd rhan mewn paneli holi ymgeiswyr.

Mae ein grwpiau tenantiaid a chymunedau hefyd yn ffynhonnell werthfawr wrth i ni siapio polisïau a chynhyrchu gwybodaeth a deunyddiau.

Mae creu Llawlyfr Tenantiaid newydd wedi bod yn brosiect sylweddol, ac roedd cyfranogiad y tenantiaid yn allweddol wrth fynd ati i greu adnodd fyddai'n addas a defnyddiol o ran gwybodaeth a naws.

Mae datblygiadau lu ar waith ar draws ein ardal weithredol. Mae prosiect mawr a chymhleth Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon yn Rhuthun wedi gwneud cynnydd arbennig o dda ac yn croesawu tenantiaid newydd yn fuan. Partneriaeth gynhyrchiol gyda chymdeithas dai arall, ClwydAlyn sydd y tu ôl i ddatblygiad Canol Cae yn Penrhyndeudraeth, sy'n arwydd o'n hawydd i gyd-weithio i ddiwallu'r angen dirfawr am dai o safon i bobol leol.

Mae datblygiadau yn Bryn Du, Rhewl Fawr a Chaergybi hefyd yn ganlyniad cyd-weithio agos a cynnal partneriaethau cryf gyda'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, sy'n allweddol i'r dyfodol.

Ar nodyn personol, cefais i fy mhenodi'n barhaol i swydd Prif Weithredwr Grŵp Cynefin. Mae hynny'n fraint ac edrychaf ymlaen i arwain y grŵp i ddyfodol llewyrchus, gan greu gweithlu sy'n rhoi o'u gorau i'n tenantiaid a chwsmeriaid, yn hapus yn eu gwaith, gan allu datblygu eu gyrfa yma, ac yn falch o weithio i Grŵp Cynefin.

**Mel Evans**
**Prif Weithredwr Grŵp Cynefin**

# Gair gan y Cadeirydd

Y llynedd, cefais yr anrhydedd o gael fy mhenodi yn Gadeirydd Grŵp Cynefin, a bellach rwyf yn y swydd ers blwyddyn. Doeddwn i ddim yn estron llwyr i'r grŵp, gan fy mod yn gadeirydd ein is-gwmni Canllaw yn flaenorol, ac yn gyfarwydd gyda'r gwaith da gyflawnir gan y grŵp ar ei hyd.

Mae'r ffocws ar y sector dai ar gynnydd o du'r cyfryngau, a llywodraethiant a safonau y mwyaf tynn a welwyd. Ac mae hyn i'w groesawu, oherwydd wrth wraidd popeth a wnawn mae tenantiaid, cwsmeriaid, partneriaid a staff. A'n dyletswydd ni fel bwrdd yw sicrhau bod Grŵp Cynefin yn darparu adnoddau a gwasanaethau o'r safon uchaf posib i'r rhain i gyd.

Mae'n waith diflino, ac mae fy edmygedd o sut mae ein staff i gyd yn parhau i weithio yn gydwybodol ac egwyddorol i'w edmygu.

Mawr yw fy niolch i bawb, ac am fy nghroesawu i'r grŵp fel Cadeirydd. Mae gwaith i'w wneud yn craffu ac ysbrydoli. Mae deddfwriaethau ac amodau yn newid yn gyson, ac mae'n rhaid bod ar flaenau'n traed i sicrhau ein bod yn ymateb yn chwim ac effeithiol i ofynion y dydd o fewn y sector.

Hoffwn ddiolch i aelodau eraill y Bwrdd Rheoli – mae newid mawr wedi bod o ran aelodaeth dros y flwyddyn diwethaf i sicrhau trawstoriad o arbenigedd a phrofiad. Rydyn ni fel bwrdd a minnau fel Cadeirydd yn edrych ymlaen am yr hyn a ddaw, yn edrych ymlaen i lywio a chynghori'r grŵp a chefnogi'r uwch dim rheoli a'r staff i gyd.

Diolch am bob cefnogaeth

**Tim Jones**
**Cadeirydd Bwrdd Rheoli**
**Grŵp Cynefin**



# Gwobrau




Ym mis Ionawr eleni, daeth clod o du allan i Gymru, wrth i Grŵp Cynefin ennill gwobr fawr ledled y DU.

Enillodd cynllun tai Llety'r Adar, Bethesda, Gwynedd, wobr gyntaf am Ddatblygiad Bach Tai Cymdeithasol yng Ngwobrau Rhagoriaeth Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC). Gwobrwywyd y cynllun am waith y tîm prosiect yn sicrhau adeiladu diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.

Adeiladwyd y datblygiad gan gwmni adeiladu Gareth Morris Construction gyda phenseiri Ainsley Gommon o Sir y Fflint, asiant adeiladu Wakemans o Gaernarfon a pheirianwyr Datrys o Gaernarfon.

Mae'r prosiect cyfan yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd partneriaethau yn cael eu creu er budd yr ardal leol.




## Archrediadau

Pleser o'r mwyaf yw gallu cyhoeddi unwaith eto ein bod wedi cyrraedd y safon am Ragoriaeth Cwsmer am y drydedd flwyddyn yn olynol. Derbyniwyd dyfarniad o 'Full Compliance' mewn 52 o'r 57 elfen a osodir ac wedi gallu profi ein bod yn mynd y filltir ychwanegol mewn pump elfen ac felly wedi derbyn 'Compliance Plus' yn yr elfennau yma. Mae Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE) yn safon a gydnabyddir yn genedlaethol ac gynlluniwyd i ysgogi newid sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Diolch o waelod calon i'r holl staff, partneriaid a thenantiaid sydd wedi bod yn rhan o'r broses ac yn barod i gyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol i sicrhau ein bod yn deilwng o'r achrediad 'Rhagoriaeth Mewn Gwasanaeth Cwsmer'.

# Mwy na thai

## Cymryd Rhan

- Sesiynau wythnosol Tenantiaid ar-lein – **30**
- Nifer o denantiaid sy'n cymryd rhan yn rheolaidd – **22**
- Sesiynau wedi edrych ar **23** gwahanol elfen o waith Grŵp Cynefin

Dyma rai o'n tenantiaid yn egluro beth mae cymryd rhan yn ei olygu iddyn nhw a'r budd maen nhw'n ei gael o gyfrannu.




- Grwpiau Tasg a Gorffen – **3** (Llawlyfr Tenantiaid, hunan arfarniad, gwaith tîm Mentrau)
- **12** sesiwn wybodaeth 'Cymryd Rhan – **13** tenant wedi mynychu, **7** yn cymryd rhan yn dilyn hyn.'

## Ymgynghoriadau

**Ionawr 2024** – Ymgynghori â thenantiaid ar flaenoriaethau gwaith 2024 – 2025. **161** ymateb. Prif ffocws fydd cynorthwyo ein cymunedau gyda'r argyfwng costau byw.

**Ionawr 2024** – Ymgynghori â staff ar ddiwylliant y grŵp. **84** ymateb. **98%** yn cytuno gyda'r datganiad 'Mae gan Grŵp Cynefin ddiwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid'.

## Gwibdaith

Prif bwrpas y wibdaith eleni oedd rhannu gwybodaeth 'Diogelwch yn y Cartref'. Roedd hefyd yn gyfle i hyrwyddo cefnogaeth ychwanegol i denantiaid, codi ymwybyddiaeth, derbyn cyfeiriadau a cheisio annog mwy o denantiaid i gymryd rhan yn ein gwaith.




- 62 staff wedi ymuno
- 1 aelod Bwrdd
- Wedi teithio o amgylch 7 sir
- Wedi ymweld â 124 stad
- Wedi ymweld â 1191 cartref
- Wedi siarad gyda 391 tenant

## Stamp Sêl Bendith

**24** dogfen / polisi wedi derbyn stamp sêl bendith yn dilyn adborth, sylw a newidiadau gan y tenantiaid.

## Wardeiniaid Ynni

**Nifer yr atgyfeiriadau: 501**
**Talebau tanwydd a ddosbarthwyd: £6,499**

## Cymorth Digidol

- Wedi cynnal **56** sesiwn ddigidol 1-1 gyda **24** unigolyn
- Cymunedau Digidol Cymru wedi rhedeg sesiynau i denantiaid
- Wedi cydweithio gyda phartneriaid i ail ddefnyddio hen ddyfeisiadau – rydym yn rhoi benthyg rhain ynghyd â chardiau sim i'n tenantiaid.

**Wedi llwyddo i sicrhau £1,597,482.21 mewn grantiau i'n cymunedau.**

## Hyfforddiant a Chyflogaeth

- **20** tenant wedi derbyn cymorth
- **2** wedi derbyn cymorth tuag at hunangyflogaeth
- **1** tenant mewn swydd llawn amser
- **1** tenant mewn swydd rhan amser
- **1** tenant ar gwrs digidol i wella sgiliau
- **3** tenant ar hyfforddiant a ddarperir gan gyflogwr
- **2** denant yn mynychu hyfforddiant yn gysylltiedig â swydd
- **11** cais camau i gyflogaeth gwerth **£2258.72**
- **1** aelod o staff ar brentisiaeth



## Sesiynau Gofal Ychwanegol





Mae'r tîm wedi parhau i gefnogi staff o fewn ein cynlluniau tai gofal ychwanegol gydag amryw o wahanol sesiynau gan gynnwys sesiynau Pontio'r Cenedlaethau, celf, cerdd, ymarfer corff, digidol a llawer mwy.

## Grant Budd Cymunedol Llys Awelon

Roedd grantiau o hyd at £1000 yr un ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn ardal Rhuthun sy'n gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Ym mis Tachwedd lansiwyd cronfa gwerth £18,000 fel rhan o ail-ddatblygiad Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon. Mae'n arferol rŵan bod cytundebau adeiladu mawr o'r math yma yn cynnwys buddsoddiad cymunedol gan y cwmni adeiladu. Reads Construction yn yr achos yma.



Dyma wynebau hapus aelodau Clwb Criced Rhuthun wedi iddyn nhw fod yn llwyddiannus yn eu cais am grant cymunedaol Llys Awelon.



## Prosiect Meinciau Cyfeillgar

Annog sgwrs, cysylltiad a chyfeillgarwch rhwng pobol o bob oed. Dyna oedd bwriad y prosiect arbennig yma yn nhref Dinbych, sef 'Meinciau Cyfeillgar Dinbych' ar y cyd rhwng Grŵp Cynefin a Chymunedau Bywiog Hamdden Sir Ddinbych. Roedd yn cynnwys gweithio gydag artistiaid a chymunedau lleol i greu cyfres o feinciau lliwgar a thrawiadol y gall pobl eu hadnabod fel rhywle i gysylltu hefo'i gilydd, rhywle y gall pobol fynd am sgwrs. Yn ddelfrydol, byddai'r ymwneud hwnnw yn cynnwys sgyrsiau rhwng pobol o bob oed – gan annog cyfeillgarwch ar draws y cenedlaethau a lleihau unigrwydd.

Ariannwyd y prosiect gan Grŵp Cynefin, Cymunedau Bywiog Hamdden Sir Ddinbych a derbyniwyd grantiau gan DVSC a Chyngor Tref Dinbych i drawsnewid chwe mainc.

## Byw yn Anibynnol



Mae prosiect Byw yn Annibynnol yn gweithredu ledled Conwy a Sir Ddinbych i addysgu pobl ifanc am ddigartrefedd a byw'n annibynnol.

- **Sesiynau cefnogi 1-1 - 73**
- **Sesiynau galw mewn - 35**
- **Pobl ifanc yn cael mynediad at wybodaeth a chymorth - 30**
- **Sesiynau grŵp - 26**

Sesiynau yn cynnwys 'Estyn allan', 'Rheoli arian', datblgygu sgiliau 'Byw yn annibynnol' megis cyllidebu, coginio bwyd iach a blaenoriaethu biliau.

## Congl Meinciau



- **Defnydd desg boeth -** 106
- **Defnydd ystafell gyfarfod -** 60
- **Tenantiaid newydd -** 4
- **Grantiau i'r ganolfan -** £15,850

### Unigolion wedi elwa o sesiynau:

- **Cymorth digidol -** 117
- **Gweithgareddau plant -** 465
- **Cyngor a chymorth tlodi tanwydd -** 27
- **Presgriptiwn cymdeithasol a chroeso cynnes -** 338
- **Pontio'r cenedlaethau -** 60
- **Llesiant ac unigedd -** 185
- **Cyrsiau hyfforddiant -** 12
- **Gwersi cymraeg -** 16 bob wythnos



## HWB Dinbych

- **Celf at Iechyd** – Ariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. **4** sesiwn wythnosol gyda **40** yn mynychu.
- **Fit & Fed** – Cynhaliwyd sesiynau yoga, bocsio, parti Calan Gaeaf, diwrnod crempog, sesiynau pitsa a 'pool'. **86** person ifanc wedi cael pryd o fwyd a mwynhau gweithgaredd.
- **Cefnogaeth cyflogaeth** – Gyrfa Cymru a Chyngor Sir Ddinbych wedi cefnogi **97** unigoliyn i edrych am waith rhwng Ionawr a Mawrth 2024 yn HWB Dinbych. Busnes Cymru wedi ymgysylltu â **18** o unigolion.
- **Grŵp cerdded** – Cyfarfod yn wythnosol, wedi ei arwain gan Mind Dyffryn Clwyd. Rhwng **8** a **15** unigolyn yn mynychu yn rheolaidd.
- **Clwb garddio** – Unigolion wedi dod at eu gilydd i drawsnewid yr ardd. Buont yn ei plannu llysiau ac yna eu dosbarthu i'r rhai mewn angen.
- **Caffi trwsio** – Cynhaliwyd **10** caffi trwsio dros y flwyddyn – prosiect sy'n rhoi cyfle i bobl ddod ag eitemau i'w trwsio – am ddim! Mae'r gwirfoddolwyr wedi rhoi dros **60** awr o'u hamser i drwsio dros **200** o eitemau sy'n amrywio o feiciau, offer trydanol, dillad ac atgyweiriadau cyffredinol.
- **Cefnogaeth digidol** – Cwmpas wedi cynnal **10** sesiwn o Rhagfyr 2023 – Ebrill 24. **34** unigolyn wedi derbyn cefnogaeth digidol yn HWB Dinbych
- **Prosiect Ieuenctid Dinbych** – Wedi cefnogi **59** unigolyn gyda pharseli bwyd. Yn cynnig drws agored i unrhyw un alw i mewn ac yn cynnig cymorth 1-1 a chyfeirio at bartneriaid lle bo angen. Grŵp rhieni a babanod llwyddiannus gan gydweithio gyda gweithwyr iechyd a Hamdden Sir Ddinbych i gynnig cefnogaeth.
- **Youth Shedz**
  Parhau i gefnogi pobl ifanc Dinbych ac wedi ehangu'r gwasanaeth i'r gymuned ehangach. Cydweithio gydag asiantaethau megis Cyfiawnder Ieuenctid Sir Ddinbych a Chonwy. Sesiynau yn cynnwys pysgota, prosiect adfer beiciau a go-karts, sesiynau celf a chrefft, addysgu am beryglon cyllyll a sesiynau 1-1.











## Y Shed

Mae Y Shed yn parhau i fod yn lleoliad o ddiddordeb yng ngogledd Cymru. Mae'n cynnwys caffi poblogaidd sy'n denu pobl o bell ac agos. Lleolir 4 uned fusnes yno, a 27 o focsys arddangos sy'n gwerthu cynnyrch crefftwyr lleol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae trafodaethau rhwng Grŵp Cynefin, y Loteri a grwpiau lleol wedi bod i drafod opsiynau ar gyfer trosglwyddo'r prosiect yn ôl i'r gymuned – sef y bwriad o'r cychwyn cyntaf.

Wrth edrych ymlaen – y cwmni 'Para El Mundo' (sy'n rhedeg y caffi) fydd yn gyfrifol am y prosiect, ac mae'r camau i drosglwyddo'r proiect ar brydles hirdymor wedi dechrau. Disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod 2024-25.

# Cyfathrebu




## Llawlyfr Tenantiaid

Crëwyd Llawlyfr Tenantiaid newydd trwy gydweithio gyda staff a thenantiaid dros gyfnod o chwe mis. Gwrandawyd ar eu hadborth ac mae'r llawlyfr yn adlewyrchu'r hyn roeddent am ei weld – llawlyfr cryno, hawdd ei ddarllen, gyda iaith syml. Yn bennaf, copi digidol ydi'r llawlyfr gyda dolenni yn arwain i wybodaeth amrywiol ar y wefan.  Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth yn gywir a chyfredol a bod modd ei ddiweddaru yn ôl y galw.







## Cadw eich cartref yn ddiogel

Mae rhan newydd 'Cadw eich cartref yn ddiogel' wedi'i ychwanegu i'r wefan yn yr adran tenantiaid.

Cadw eich cartref yn ddiogel - Grŵp Cynefin (grwpcynefin.org)

O wiriadau diogelwch nwy blynyddol i ganllawiau diogelwch tân, mae gwybodaeth i gynnig help a chyngor ymarferol bob dydd i gadw tenantiaid yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed yn eu cartrefi.

Yn ogystal â ffurf digidol, rydym hefyd yn darparu'r prif eitemau mewn print e.e. taflenni diogelwch Tân, Nwy, Dŵr, Radon, Asbestos a gwybodaeth am damprwydd a llwydni.




## Newyddion Tenantiaid

Ym mis Chwefror lansiwyd bwletin misol digidol ar gyfer ein tenantiaid. Mae cynnwys 'Helo!' sy'n debyg i'r hen Calon, ond yn cael ei yrru yn uniongyrchol i'n tenantiaid ar e-bost bob mis. Yn ogystal, crëwyd adran newyddion yn neilltuol ar gyfer tenantiaid ar y wefan.

Golyga hyn gynnwys mwy perthnasol, yn fwy rheolaidd i'n tenantiaid, gan ymateb ynghynt os oes angen cynnwys arbennig e.e. ymgyrch diogelwch benodol.

Byddwn yn edrych ar gyflwyno'r deunydd mewn ffordd wahanol i'n Tai Gofal Ychwanegol a bydd modd gwneud cais am ddeunydd print hefyd, fel bo neb ar eu colled.

# Corfforaethol



## Iechyd Da

Un o nodau Iechyd Da, cynllun llesiant staff Grŵp Cynefin, oedd rhoi mwy o gyfleon cymdeithasol i staff tu allan i oriau gwaith. Trefnwyd dwy daith gerdded gyda'r nos – un yn ardal Pontnewydd ac un ym Mhenycloddiau ger Dinbych. Bu bron i 70 staff, aelodau teulu a chŵn ar y teithiau cerdded hynod o hwyliog a llwyddiannus gan ddiweddu gyda bwyd a chlonc. Nosweithiau llesol iawn o sgwrsio a mwynhau.

## Codi arian at elusen

Elusen etholedig Grŵp Cynefin ar gyfer y flwyddyn yw Ambiwlans Awyr Cymru, a ddaeth i'r brig mewn pleidlais staff.

Codwyd £407 dros y flwyddyn drwy amryw o wahanol ffyrdd gan gynnwys y teithiau cerdded, ocsiwn cacennau, a raffl.



## Westfield Health

Mae staff yn gweld buddion mawr o gynllun arian parod iechyd staff sy'n cynnwys ad-dalu costau deintyddol, presgripsiynau llygaid, ymgynghoriadau meddygol a chyngor iechyd.

"Mae'r cynllun iechyd Westfield yn adnodd gwych i ni staff, rwyf wedi gwneud defnydd ohono tra'n ymweld gyda'r deintydd ac optegydd a 'chydig o ffysio!"

"Mae'r adnodd Westfield Rewards yn wych – archebais docynnau trên i Lundain am £90 ar Trainline.com, ac roedd cashback o £16.23 yn fy nghyfrif y diwrnod wedyn!"

"Dwi wedi gwneud y mwyaf o'r cynllun a chael 'Full body MOT' – wedi cael arian yn ôl ar apwyntiadau deintydd, ceiropractydd, ciropodydd ac optegydd."

# Tai

## Arolwg Llywodraeth Cymru

Fel rhan o'r Polisi Rhent Tai Cymdeithasol pum mlynedd, cytunodd landlordiaid i gynnal arolwg safonedig o foddhad tenantiaid a fyddai'n cael ei gyhoeddi i gynorthwyo tenantiaid i graffu a chymharu perfformiad landlordiaid cymdeithasol.

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod Hydref/ Tachwedd 2023 dros gyfnod o dair wythnos.


- Wedi cysylltu â **913** tenant
- Wedi siarad â **42%**

**79**
trwy e-bost


**300**
dros y ffôn

**Dyma flas o rhai o'r canlyniadau:**


**Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi hefo'r gwasanaeth a ddarperir gan Grŵp Cynefin?**





**Gan feddwl am eich cartref yn benodol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod Grŵp Cynefin yn darparu cartref sy'n saff a diogel?**




**Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gydag ansawdd cyffredinol eich cartref?**




**Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'ch cymdogaeth fel lle i fyw?**






## Tîm Lles

**498**
tenant wedi cael cefnogaeth

**£2439.61**
Cyfartaledd o enillion parhaus i bob tenant

## Retrofit

Mae Retrofit, neu Ôl-osod i roi'r term cywir, yn gynllun sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd gan Grŵp Cynefin i wella rhai o'n cartrefi lleiaf effeithiol o ran ynni. Gobeithio y bydd hyn hefyd yn arbed ar filiau ynni i'r tenant ac yn well i'r amgylchedd.



Ym mis Rhagfyr, cafodd ein tenant hapus cyntaf waith helaeth ar y tŷ, oedd yn golygu cartref cynnes, clyd iddi hi a'i mab ifanc mewn pryd ar gyfer y Nadolig. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod paneli solar ar y to a system wresogi newydd.

Yn ôl Sarah sydd a mab ifanc Isaac, yn Ynys Môn. Mae wedi gwneud byd o wahaniaeth

"Rhyfeddol. Mae 'nhŷ i mor gynnes, mor glyd, mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth mae'n anhygoel. Dwi'n hapus iawn."

Bydd mwy a mwy o'n tenantiaid yn cael eu cynnwys yn y cynllun ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae hyn i gyd yn rhan o nod Llywodraeth Cymru i gael pob cartref yng Nghymru i berfformio ar Lefel C erbyn 2030.

Gwnaeth Grŵp Cynefin waith helaeth i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n derbyn y dechnoleg newydd yn ei ddefnyddio'n gywir i gael y fantais orau ohono. Gan ofalu defnyddio iaith syml, hawdd i'w deall, cynhyrchwyd taflenni defnyddwyr, gwybodaeth ddigidol a fideos, gan eu dosbarthu mewn print ac yn ddigidol.










- **Rhoddodd ein tenant cyntaf un groeso mawr i'r trawsnewid i'w chartref yn ystod Rhagfyr 2023**
- **Erbyn Mawrth 2024 roedd 10 o'n tenantiaid ni wedi derbyn systemau ôl-osod yn eu cartrefi** — **10**
- **Erbyn heddiw, mae wedi cynyddu i 51 tenant** — **51**
- **Dylai bod tua 150 eiddo wedi derbyn gwaith retrofit i'w cartrefi erbyn diwedd Mawrth 2025** — **150**

cefnogaeth a mwy • support and more

# Gorwel




Uned o fewn Grŵp Cynefin sy'n cynnig gwasanaethau cefnogi ydi Gorwel. Mae eu cefnogaeth yn cynnwys atal digartrefedd a chefnogi goroeswyr cam-driniaeth domestig.

Manteisiodd Gorwel ar **Ddiwrnod Digartrefedd y Byd** (dydd Mawrth, Hydref 10) i dynnu sylw at y math o lety a gwasanaethau cymorth a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol, fel Yr Hafod yn Ninbych.

Mae'r cynllun yn darparu chwe fflat hunangynhwysol o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed sy'n wynebu digartrefedd, ynghyd â chymorth 24 awr, ac yn rhoi'r preswylwyr mewn cyswllt â gwasanaethau eraill a gynigir gan HWB Dinbych.

## Dywed Osian Elis, Prif Swyddog Gorwel:

**“Mae digartrefedd yn parhau i godi ar draws Cymru wrth i ni weld effaith yr argyfwng costau byw ar bobl a theuluoedd. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod bron i 11,000 o bobl ddiwedd mis Gorffennaf yn byw mewn llety dros dro gyda gwestai a gwely a brecwast yn cael eu defnyddio fwyaf.”**




## Stori Olivia

Pan roedd *Olivia yn wynebu digartrefedd, fe ddarparwyd fflat iddi gan Gorwel yn Yr Hafod yn Ninbych. Dyma lle dechreuodd pethau newid i Olivia. Mae ganddi bellach Lefel A, yn astudio am drwydded yrru ac yn bwriadu mynd i Brifysgol Manceinion i astudio ysgrifennu creadigol.

**“Yn bendant fyddwn i ddim wedi cyrraedd lle rydw i nawr heb Gorwel a fy ngweithiwr cymorth. Fe wnaethon nhw roi sefydlogrwydd i mi, fy rhoi mewn cysylltiad â grantiau a fy helpu i fyw'n annibynnol.”**

# Adnoddau Dynol

## Recriwtio




### Brandio

Dros y flwyddyn rydym wedi cryfhau ein brand recriwtio. Crëwyd pop-ups a baneri yn defnyddio ein lluniau newydd o staff a delwedd fywiog sy'n cyd-fynd â'n hysbysebion swyddi cyfredol.

Gosodwyd y baneri tu allan i'n swyddfeydd. Mae QR codes arnyn nhw yn mynd â phobl i'r swyddi diweddaraf felly yn ffordd effeithiol o ddangos pa swyddi sydd ar gael.




### Pecyn Buddion

Fel rhan o un o argymhellion 'Lean', crëwyd pecyn buddion newydd yn dangos y gwahanol fuddion sydd o weithio i'r grŵp a thynnu sylw at delerau hael y cwmni. Mae hwn wedi ei osod gyda pob pecyn swydd ar People HR.

### People HR

Cynhaliwyd adolygiad 'Lean' o brosesau recriwtio Grŵp Cynefin. Yn dilyn hyn ychwanegwyd leisens pellach i system People HR, sydd wan yn ein galluogi i redeg y broses recriwtio trwy portal ATS (Applicant Tracking Stsrem). Mae hyn yn ffordd llawer mwy effeithiol i ymgeiswyr sy'n ceisio am swyddi, i'r panel recriwtio sy'n cymryd rhan yn y broses penodi ac i'r Tîm Adnoddau Dynol sy'n gweinyddu'r broses.

### Diwrnodau Recriwtio

Wrth edrych ar ffyrdd gwahanol a mwy creadigol o ddenu staff i'r grŵp, cynhaliwyd **2** diwrnod recriwtio gan gynnwys **1** diwrnod i Gorwel ac **1** i'r adran Dai.

**Roedd yr ymateb yn wych:**

**Diwrnod adran Dai** – **17** wedi datgan diddordeb, **6** wedi troi i fyny ar y diwrnod a **3** wedi'u recriwtio o ganlyniad.

**Diwrnod Gorwel** – **16** wedi datgan diddordeb, **8** wedi troi i fyny ar y diwrnod a **5** wedi'u recriwtio o ganlyniad.



# Hwyluswyr Tai Gwledig

Mae gwasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig (HTG) yn cael ei weinyddu gan Grŵp Cynefin ac yn gweithredu ar draws Gwynedd, Conwy ag Ynys Môn. Mae’r Hwyluswyr yn gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai sydd yn weithredol yn y dair sir yn ogystal â Chyngor Môn, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru.

Mae gwasanaeth yr HTG wedi cynnal sawl ymgynghoriad dros y flwyddyn diwethaf, nid yn unig ar gyfer partneriaid y gwasanaeth ond hefyd ar ran cymunedau sydd eisiau ymateb i anghenion tai eu cymunedau.

Fel rhan o’u gwaith mae’r HTG yn cydweithio yn agos gyda’r partner/ cymuned i gysylltu gyda thrigolion yr ardal  i gasglu eu barn ac i ddysgu mwy ynglŷn â’u anghenion tai. Mae’r wybodaeth yn cael ei gasglu, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy ddilyn dolen i arolwg ar-lein.



Bydd yr HTG yn casglu’r wybodaeth yma ac yn ei gyflwyno mewn adroddiad ynghyd â data am stoc’r farchnad dai yr ardal, rhestrau aros tai a chyflog cyfartaledd yr ardal. Mae’r adroddiadau yn cynorthwyo partneriaid wrth iddynt gyflwyno cais cynllunio ac yn caniatáu i grwpiau cymunedol gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Dyma grynodeb o’r gwaith mae’r HTG wedi ei gyflawni yn ystod 23/24:**

**Adroddiadau Llawn sydd yn cynnwys ymgynghori hefo cynghorau cymuned, y gymuned a data ar angen am dai a sefyllfa tai presennol yr ardal.**



Gwynedd - 5 uned



Ynys Môn - 2 uned



Conwy - 4 uned

**Adroddiadau ‘desktop’ lle nodir gwybodaeth ar yr angen am dai a sefyllfa tai presennol yr ardal.**

Yn dilyn ymgynghoriadau gan Hwyluswyr Tai Gwledig, adeiladwyd 26 uned ac mae 110 uned arall ar eu canol.



Gwynedd - 2 uned



Ynys Môn - 3 uned

## Cynllun Peilot Dwyfor

Mae’r Cynllun Peilot yn Nwyfor yn gynllun sydd yn cael ei redeg gan Lywdoraeth Cymru mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Cynefin ag Adra. Mae’r cynllun yn bennaf yn edrych ar y sefyllfa dai yn ardal Dwyfor gan ei bod â dwysedd uchel o ail gartrefi ac unedau gwyliau.

Fel rhan o’r gwaith bydd partneriaid y cynllun yn monitro’r sefyllfa dai yn yr ardal a’r effaith y mae polisiau yn ei gael ar y stoc dai, gan gynnwys cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd wedi ei basio yn ddiweddar gan Gyngor Gwynedd ac sydd mewn grym ers 01.09.2024.

Yn ogystal â monitro’r sefyllfa dai mae’r bartneriaeth hefyd yn edrych ar gynlluniau gwahanol i gynorthwyo gyda fforddiadwyedd yn yr ardal ac mae hyn yn cynnwys:

- Cynllun Blaendal
- Cymorth gydag hunan-adeiladu
- Cymorth i gymunedau sydd eisiau arwain ar faterion tai
- Cymorth i gymdeithasau tai gyda safleodd anodd yn yr ardal

Yn sgil y Cynllun Peilot yn Nwyfor mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi yng Nghynllun Prynu Cartref Gwynedd gyda £8.5miliwn wedi ei glustnodi dros dair blynedd i gynorthwyo pobol lleol i brynu tŷ yn Nwyfor. Am fwy o wybodaeth am y cynllun ewch ar safle Tai Teg www.taiteg.org.uk.



## Tai Teg


TAI TEG
CYSYLLTU POBL GYDA CHYFLEON TAI
CONNECTING PEOPLE WITH HOUSING OPPORTUNITIES

Partneriaeth yw Tai Teg gyda nod o ddarparu cartrefi fforddiadwy i unigolion sydd methu rhentu neu prynu ar y farchnad agored. Grŵp Cynefin sy’n gweinyddu ar ran ein partneriaid ac mae’r bartneriaeth yn cynnwys 13 partner ar draws Gogledd Cymru a Powys.

Mae’r tim wedi bod yn brysur gydol y flwyddyn yn asesu ymgeiswyr ac yn cadw at y targedau a osodwyd gan ein partneriaid.

Dros gyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024 enwebwyd 370 o ymgeiswyr ar gyfer cartrefi trwy gofrestr Tai Teg.

**Unedau wedi nomineiddio drwy Tai Teg**




Diolch i’n holl bartneriaid am eu cefnogaeth yn 2023/2024. Edrychwn ymlaen at gydweithio hefo HTG, Cynllun Dwyfor a Tai Teg i ddarparu amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd Gwledig drwy wasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig a Chynllun Peilot Dwyfor.

# Datblygiadau



## Llys Awelon, Rhuthun

Aeth gwaith mawr yn ei flaen yng Nghynllun Tai Gofal ychwanegol Llys Awelon, Rhuthun, i drawsnewid y safle yn gyfan gwbl.





Mae Llys Awelon ar ei newydd wedd bellach ar fin ei orffen ac rŵan yn cynnig cynllun modern, carbon isel, pwrpasol i gwrdd ag anghenion pobl hŷn yn ardal Sir Ddinbych.

Mae'n cynnwys 35 o fflatiau un a dwy ystafell wely yn ychwanegol i'r 21 fflat wreiddiol, yn ogystal ag ardaloedd cymunedol – gerddi braf, lolfeydd a bwyty. Yn ogystal â'r cyfleuster ei hun, mae cyfle wedi bod i'r gymuned ehangach elwa o'r cynllun, gyda gwerth £18,000 o grantiau ar gael i brosiectau a chlybiau lleol i wella bywydau a chyfleoedd yn ardal Rhuthun.





## Llys y Gwynt, Caergybi

Mae'r cynllun llety presennol wedi ei adnewyddu ac ymestyn i greu 12 uned i bobl di-gartref. Mae'n ganlyniad cydweithio rhwng Cyngor Ynys Môn a Di-gartref Môn.

Mae'r cynllun wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Grant Digartrefedd.

Y contractwr yw Read Construction o Wrecsam gydag gwaith wedi ei gwblhau yn Mehefin 2024.





## Rhewl Fawr, Penyffordd



Yn Hydref 2023 gwelsom denantiaid yn symud i'n stad newydd sbon yn Rhewl Fawr, Penyffordd. Partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint sy'n cynnig tai rhent o safon i bobol leol Penyffordd. Mae'r cynllun yn cynnig cyfuniad o wyth o dai - chwe thŷ cynllun rhent cymdeithasol, a dau dŷ rhent canolraddol.

Maent yn gartrefi cynaliadwy a charbon isel ac yn gyfuniad o dai dwy a thair llofft.

## Maes Deudraeth, Penrhyndeudraeth





Ym mis Hydref 2023 dechreuwyd ar ddatblygiad o 41 o gartrefi ynni effeithlon a fforddiadwy i bobl leol ym Mhenrhyndeudraeth, Gwynedd. Datblygiad ar y cyd hefo ClwydAlyn ydi hwn mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd fel rhan o Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Gwynedd. Y contractwr yw Williams Homes o'r Bala.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Tai Cymdeithasol Cyngor Gwynedd sy'n anelu at gyrraedd targed Cyngor Gwynedd o adeiladu 700 o dai cymdeithasol ar draws y sir erbyn 2026/27.


Bydd y datblygiad yn darparu cyfuniad o gartrefi dwy, tair a phedair ystafell wely, byngalo arbenigol tair ystafell wely a phedair ystafell wely a fflatiau un ystafell wely. Mae'r ystod o gartrefi sy'n cael eu cynnig yn ganlyniad ymgynghori eang gyda'r gymuned leol gan Hwyluswyr Tai Gwledig, i ddeall yr anghenion tai lleol. Bydd y cartrefi newydd yn hynod effeithlon o ran ynni, wedi'u hadeiladu yn ddefnyddio technolegau gwyrddach a dyluniadau arloesol.

## Stad y Felin, Tŷ Croes

Mae gwaith mawr yn mynd yn ei flaen i ymestyn y stad yma. Bydd yn darparu cartrefi ynni effeithlon a fforddiadwy i bobol leol, gydag chyfuniad o bedwar byngalo dwy lofft, tri thŷ dwy lofft ac un tŷ pedair llofft. Bydd y rhain yn cael eu gosod fel tai cymdeithasol ac yn cael eu gorffen erbyn diwedd 2024.



Y contractwr yw Gareth Morris Construction o Llangollen.



## Cydweithio â Cyngor Gwynedd i drawsnewid eiddo gwag

Mae Grŵp Cynefin, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd, wedi adfywio pedwar eiddo gwag yng Ngwynedd fel rhan o'i ymrwymiad i ddarparu cartrefi fforddiadwy a chynnal cymunedau gwledig.

Mae'r tai, ym Mhorthmadog, Trefor, Penrhosgarnedd a Brynrefail, wedi cael eu trawsnewid o eiddo gwag i gartrefi teuluol modern, ynni-effeithlon a hygyrch.

Mae'r gwaith yn rhan o Raglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gynyddu cartrefi fforddiadwy yng Nghymru.

I un o denantiaid newydd un o'r cartrefi, mae wedi golygu newid bywyd iddi hi a'i phlentyn ifanc.

"Ro'n i'n ddigartref ac yn byw mewn llety dros dro i'r digartref," meddai Mia.

Mae'n braf gwybod nad oes 'na angen i mi symud eto hefo'r bychan, rydan ni mor hapus yma. Mae'n braf, a saff."

Mae Grŵp Cynefin yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu unedau pellach yng Nghricieth a gyda chynghorau Conwy, Sir Ddinbych ac Ynys Môn i ddod ag eiddo eraill yn ôl i ddefnydd fel cartrefi, gyda chyllid TACP.

# Ein Perfformiad

**Canran y tenantiaid sy'n fodlon, neu'n fodlon iawn, â'r gwasanaethau a ddarperir gan Grŵp Cynefin**
2022/23: 88%
2023/24: 81%

**Nifer y galwadau a atebwyd gan Cyswllt Cynefin, ein canolfan gwasanaeth cwsmer**
2022/23: 39,793
2023/24: 37,338

**Nifer y staff a gyflogir**
2022/23: 290
2023/24: 320

**Y nifer a gyflogir gan Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
2022/23: 44
2023/24: 51

**Nifer o ddyddiau i osod eiddo**
2022/23: 23
2023/24: 48

**Nifer yr eiddo wedi'u gosod i denantiaid**
2022/23: 345
2023/24: 242

**Canran ein cartrefi a basiodd Safon Ansawdd Tai Cymru yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol**
2022/23: 100%
2023/24: 100%

**Enillion ariannol i'n tenantiaid trwy gyfrwng ein Tîm Lles**
2022/23: £1,243,504
2023/24: £1,214,925.96

**Canran y gwaith trwsio brys a gwblhawyd cyn pen 24 awr**
2022/23: 99%
2023/24: 99%

**Cost cyfartalog gwaith trwsio**
2022/23: £170
2023/24: £182

**Canran y tenantiaid sydd wedi bod gyda ni am fwy na 10 mlynedd**
2022/23: 43%
2023/24: 45%

**Canran ein heiddo sy'n cynnwys nwy a gafodd archwiliad blynyddol erbyn y dyddiad penodol**
2022/23: 99.9%
2023/24: 99.9%

**Canran y colledion rhent oherwydd ôl-ddyledion rhent**
2022/23: 2.8%
2023/24: 2.8%

**Nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd**
2022/23: 403
2023/24: 443

**Nifer y ceisiadau am waith trwsio**
2022/23: 15,869
2023/24: 15,415

# Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin



## Bwrdd Rheoli

Tim Jones (Cadeirydd)
Siôn Fôn (Is-Gadeirydd)
Mike Corfield
Llinos Iorwerth
Jane Lewis
Nigel Finney
David Lloyd
Tony Oakley (cyfetholedig)
Ken Beech (cyfetholedig)
Delyth Lloyd (cyfetholedig)
Sally Baxter (cyfetholedig)
Paul Robinson (cyfetholedig)

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Ken Beech (Cadeirydd)
Mike Corfield
Siôn Fôn
Gwenan Carrington (cynrychiolydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

## Pwyllgor Cyllid a Thwf

Jane Lewis (Cadeirydd)
Tim Jones
Tony Oakley
Paul Quirk (cynrychiolydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

## Pwyllgor Gorwel

Nigel Finney (Cadeirydd)
Siôn Fôn
David Lloyd

## Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau

Llinos Iorwerth (Cadeirydd)
Chris Schoen (Is-Gadeirydd a thenant)
David Lloyd
Nigel Finney
Trudy Edwards (tenant)
Bob Jones (tenant)
Siaron Jones (tenant)
Garry Knight (tenant)
Janet Milligan (tenant)
Ianto Roberts (tenant)
Agnieszka Dutkiewicz (tenant)

## Pwyllgor Rheolaeth Llywodraethu

Ken Beech (Cadeirydd)
Siôn Fôn
Jane Lewis
Llinos Iorwerth
Nigel Finney
Geraint George (Cadeirydd Bwrdd Canllaw)
Gwynne Jones (Cadeirydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

# Ein his-gwmniau

## Canllaw

Mae Canllaw yn darparu gwasanaethau tai ac atebion ymarferol i anghenion tai pobl hŷn neu bobl fregus lleol ar draws siroedd Gwynedd a Môn.

Gwasanaeth rhad ac am ddim i bobl 60 oed a hŷn i'w cynghori a'u cefnogi i gynnal, gwella neu addasu eu cartrefi. Yn benodol yn y sector breifat, ac wedi ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth proffesiynol i ddylunio, cynllunio, archwilio a goruchwylio gwaith adeiladu, boed fawr neu fach, ar gyfer cleientiaid hŷn neu fregus.

Gwasanaeth masnachol i wneud addasiadau priodol yng nghartrefi pobl hŷn neu fregus, er mwyn cynnal eu eu hannibyniaeth.




Yn ystod y flwyddyn 2023-24 cafodd 4,468 o bobl gymorth i addasu, trwsio neu wella eu cartref.

www.canllaw.org

- Cyfanswm gwerth y gwaith a gwblhawyd ar ran ein cleientiaid: £1.6m
- Gwneud y gorau o incwm ein cleientiaid drwy dderbyn budd-daliadau lles: £1.022m
- Cwsmeriaid yn fodlon â'n gwasanaethau: 92%
- Cwsmeriaid yn barod i'n hargymell i eraill: 96%



Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy and Denbighshire Care & Repair

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn helpu perchnogion tai hŷn a thenantiaid preifat i atgyweirio, addasu a chynnal eu cartrefi i'w galluogi i fyw yn annibynnol, yn gysurus, cynnes a diogel.

Darperir cyngor ynglŷn â:

- budd-daliadau lles
- gwresogi
- addasiadau
- cynnal a chadw ac atgyweirio

Yn y flwyddyn 23-24 cafodd **5,848** o bobol gymorth i addasu eu cartrefi.




Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

# Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

Helpu pobl hŷn i barhau i fod yn ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

Dywedodd **96%** o gleientiaid eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol a hyderus o ganlyniad i wasanaeth Gofal a Thrwsio

Ar gyfartaledd, caiff gwaith y Rhaglen Addasiadau Brys ei gyflawni o fewn **20 diwrnod**

£1 → £7.50

Am bob £1 a wariwyd ar y Rhaglen Addasiadau Brys, arbedwyd £7.50 ar gyllidebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ffoniwch ni ar 0300 111 2120

**1,833** Nifer o bobl rydym wedi eu helpu

**79** Oedran cyfartalog y bobl a gynorthwywyd

Rydym wedi hwyluso gwaith trwsio ac addasiadau preifat gwerth £384,833

£1,494,543

Helpu 288 o bobl i gynyddu eu hincwm a oedd werth £1,494,543 y flwyddyn

**99%** o glientiaid yn fodlon iawn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

**80%** Fe wnaethom helpu 80% o bobl gyda gwaith i geisio lleihau codymau

**1941** Nifer o bobl a gafodd gymorth gyda'r grant Rhaglen Addasiadau Brys i addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol

**97%** a fyddai'n argymell gwasanaeth Gofal a Thrwsio i eraill

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cyllid

## Incwm £'000







| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti | 22,892 | 63% | 21,810 | 64 % |
| Amorteiddio grant cyfalaf | 2,744 | 8% | 2,679 | 8 % |
| Gorwel | 2,657 | 7% | 2,539 | 7 % |
| Tâl Gwasanaeth | 2,160 | 6% | 1,931 | 6 % |
| Prosiectau eraill | 2,032 | 6% | 1,691 | 5 % |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 1,550 | 4% | 1,501 | 5 % |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,375 | 4% | 1,211 | 4 % |
| Gwerthiannau eiddo | 303 | 1% | 387 | 1 % |
| Arall | 380 | 1% | 109 | 0 % |
| **Cyfanswm** | **36,093** | **100%** | **33,858** | **100%** |


## Gwariant £'000







| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a chadw'r stoc tai | 11,237 | 32% | 10,155 | 32 % |
| Costau staffio | 6,784 | 20% | 5,813 | 18 % |
| Llog Morgais | 4,621 | 13% | 4,151 | 13 % |
| Dibrisiant ac amhariad y stoc dai | 3,992 | 12% | 3,998 | 12 % |
| Prosiectau eraill | 3,277 | 9% | 3,283 | 10 % |
| Arall | 1,996 | 6% | 2,279 | 7 % |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 1,474 | 4% | 1,395 | 4 % |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,365 | 4% | 1,127 | 4 % |
| Gwerthiannau eiddo | 0 | 0% | 0 | 0 % |
| **Cyfanswm** | **34,746** | **100%** | **32,201** | **100%** |





## Edrych ymlaen...

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn hon fydd cydweithio i greu Cynllun Corfforaethol 2025-2029.

Mae Grŵp Cynefin yn mynd ati mewn ffordd wahanol y tro hwn, gan gynnwys sgyrsiau ac ymgynghori rhwng staff, Aelodau Bwrdd, tenantiaid a chwsmeriaid, a hynny ar ddechrau'r broses. Hyn fydd yn siapio'r cynllun newydd, fydd yn adlewyrchu yr hyn ddylen ni fod, beth ddylai ein blaenoriaeth fod a sut ydyn ni am gael ein gweld.

Mae heriau eraill yn cael eu trin yn yr ysbryd newydd hwn o gyd-gynllunio a chydweithio. Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 yn golygu newid mawr i gymdeithasau tai ar hyd a lled Cymru.

O'r dechrau'n deg, rydym yn gofyn i'n tenantiaid, cwsmeriaid a staff roi eu barn ar sut y dylen ni ymateb i hyn, a ffrwyth y trafodaethau yma fydd yn bwydo ein strategaeth.

A gyda'r ysbryd newydd hwn o gydweithio, cyd-gefnogi a chyd-greu y byddwn ni yn camu ymlaen i wneud ein gorau i'n staff, tenantiaid, cwsmeriaid a phartneriaid.

Mae Grŵp Cynefin yn dathlu ei ben-blwyddyn ddeg oed eleni. Dylem fod yn falch o'r hyn gyflawnwyd yn y deg mlynedd diwethaf. Ac wrth edrych ymlaen, mae'n amlwg bod cyfnod cyffrous a chynhyrchiol o'n blaenau i'r degawd nesaf!

Grŵp Cynefin

**Mwy na thai • More than housing**

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol ddulliau gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i gael cymorth pellach.

Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 o dan rif 21194R ac mae'n gymdeithas dai elusennol sydd wedi'i chofrestru â Llywodraeth Cymru o dan y rhif LO29